CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN TOWN COUNCIL

Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB
Maer Cyng Sharne-Marie Bellis Dirprwy Faer Cyng Preben Vangberg

CYFARFOD Y CYNGOR TREF Medi'r 30ain, 2026, 7yh, Agenda

Cyfarfod ar Microsoft Teams
Ymuno:
https://teams.microsoft.com/meet/373034062256668?p=q38k3QvFU20y1c9Ln4
Cyfeirnod y Cyfarfod: 373 034 062 256 668
Cyfrinair: R8hR3oL7

1. **Croesawu pawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol**
2. **Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb:**
   Mae Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn bod cofnod yn cael ei gadw o'r aelodau sy'n bresennol a bod y cofnod hwn yn rhan o gofnodion y cyfarfod.
3. **Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan yr Aelodau**
   Datganiadau o ddiddordeb – yr aelodau i ddatgan unrhyw ddiddordeb a allai fod ganddynt yn eitemau'r agenda sy'n cyd-fynd â gofynion Rheoliadau 2012 (Diddordebau Ariannol Datgeladwy) awdurdodau perthnasol (SI 2012/1464) (DS nid ydy hyn yn atal unrhyw ddatganiadau diweddarach).
4. **Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd a chynrychiolaeth gan:**
   a. **Tîm Amddiffyn Rhag Llifogydd CBS Conwy**
   b. **Cynlluniau CBS Conwy ar gyfer cwblhau gwaith ar faes parcio Promenâd Llanfairfechan**
5. **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09/09/2026** DLlL 1972 Atodlen 12 para 41(1) **ac adolygu'r rhestr weithredu.**
6. **Derbyn gwybodaeth ynghylch y gwaith wedi'i gynllunio ar faes parcio'r promenâd.**
7. **Derbyn a chymeradwyo cynlluniau i gynnal gwiriadau DBS ar staff.**
8. **Derbyn a chymeradwyo fersiwn ddiweddaraf y Llawlyfr Gweithwyr.**
9. **Derbyn a chymeradwyo gwybodaeth ynghylch Cyfraith Martyn**
10. **Derbyn a chymeradwyo presenoldeb y Clerc yn y digwyddiad ar y cyd rhwng Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol / Un Llais Cymru.**
11. **Derbyn a chymeradwyo cynlluniau i brynu cadair (cadeiriau) swyddfa newydd.**
12. **Derbyn a chymeradwyo aelod ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor Cyllid.**
13. **Derbyn a chymeradwyo cynlluniau cyllid ar gyfer Calan Gaeaf Llanfairfechan**
14. **Derbyn a chymeradwyo cais am gymorth ar gyfer cwrs Cyfeiriannau Llanfairfechan.**
15. **Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer 30/09/2026.**
    1. AVAST Antivirus Jayne a Callum - £91.94 *(Adnewyddu blynyddol gyda cherdyn – taliad ôl-ddyddiedig)*
    2. British Gas - £424.84 (*taliad ôl-ddyddiedig)*
    3. Grant Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Babanod - £500
    4. BrightHR - £235.76
    5. Llungopïwr - £433.71
    6. Worldcare sgip cymunedol ar 16/9/2026 - £258.00
    7. Archeb Viking - £134.11
16. **Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio**
    (Dim materion cynllunio i'w trafod)
17. **Derbyn gohebiaeth:**
    1. Cais gan Yr Urdd ~ 2. Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ~ 3. Trafnidiaeth Cymru ~ 4. Asesiad Effaith Gymdeithasol Un Llais Cymru ~ 5. Clwb Bowlio Lawnt Coron Llanfairfechan (sgwrs barhaus) ~ 6. Drafft o'r Strategaeth Gwastraff
18. **Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau**
19. **Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol**

Nos Fercher, Medi'r 30ain, 2026

CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Teams

COFNODION

Yn bresennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Preben Vangberg; Maer Sharne-Marie Bellis; (ar-lein); Cyng. Rhys Griffiths; Cyng. Andrew Hinchliff BEM; Cyng. Nia Furber; Cyng. Chris Jones; Cyng. Christine Roberts; Clerc y Dref Jayne Neal; Dirprwy Glerc y Dref Callum Morrison

1. Croeso Croesawodd y Dirprwy Faer Preben Vangberg bawb i'r cyfarfod a chytunwyd recordio'r cyfarfod er mwyn llunio'r cofnodion. **Penderfynwyd derbyn a nodi**

2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)

Cyng. Leena Farhat; Cynghorydd Sir y Cyng. Penny Andow**;** Cyng. Alun Rhys Jones; Cyng. Charlotte Murray

Penderfynwyd derbyn a nodi

3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordeb personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)

Dim wedi'u datgan **Penderfynwyd derbyn a nodi**

4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd

Bu 3 aelod o'r cyhoedd yn bresennol a mynychodd 3 aelod ar-lein. At hyn, roedd Swyddog Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) Owen Conry o'r Tîm Amddiffyn y Môr yn bresennol i gynnig y diweddaraf am gynnydd y gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn Llanfairfechan. Soniwyd am 5 brif bwynt:

1) Gosodwyd rhwystrau amddiffyn rhag llifogydd ym mhen dwyreiniol Ffordd Glanmor a'r ffordd fynediad fwyaf dwyreiniol i Ffordd Glanmor. Mae'r rhwystrau amddiffyn rhag llifogydd hyn wedi'u cynllunio i fod yn amddiffyniad rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol. Gan hynny, mae'n golygu y cân nhw eu gosod cyn unrhyw lifogydd. Mae blychau storio ar gyfer y rhwystrau wedi'u gosod ar y safle fel bod yr holl gyfarpar wedi'i gadw ar y safle er mwyn eu caffael yn rhwydd pan mae eu hangen. Mae gan swyddogion CBSC yr allwedd i'w agor ac maen nhw'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am osod y rhwystrau hyn.
2) Llifogydd o dan bont Ffordd Ddwyreiniol y Glannau – mae falf glep newydd wedi'i osod er mwyn atal llifogydd yn ôl yn ystod llanw arbennig o uchel. Nodwyd pan mae'r llanw yn uchel ac yn rhwystro allanfa'r bibell gyda'r falf glep, mae'n bosibl bod dŵr glaw yn dal yn llifo i lawr y bibell ac yn llenwi'r bibell gan arwain at lifogydd drwy'r draeniau ffordd o dan y bont. Ateb posibl fyddai gweithredu 'mesurau rheoli llifogydd cenedlaethol'. Mae'r rhain wedi'u rhoi ar waith mewn mannau eraill yn Sir Conwy gyda chanlyniadau cadarnhaol. Diben y mesurau ydy arafu llif y dŵr yn uwch i fyny'r afon fel nad ydy'r dŵr yn cronni mor gyflym yn y bibell. Er mwyn cyflawni hyn, byddai'n rhaid cydweithio gyda thirfeddianwyr lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i asesu'r holl ardaloedd a rhoi mesurau ar waith megis 'argae sy'n gollwng' a 'phantiau'. Nodwyd bod y problemau ond yn digwydd pan mae'r llanw'n uchel ac unwaith y mae'r llanw yn cilio o'r allfa bibell yna mae'r dŵr llifogydd yn cael ei ryddhau.
3) Soniodd y preswylwyr eu bod nhw'n bryderus ynghylch costau yswiriant eu cartrefi. Pan maen nhw wedi mynd ati i drefnu yswiriant newydd, neu adnewyddu eu cytundeb, mae'r cwmnïau yswiriant wedi tynnu sylw at Afon Du fel perygl sydd wedi cynyddu premiwm yr yswiriant yn sylweddol. I helpu gyda hyn, mae CBSC a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio i gyflawni gwaith clirio ar y cwrs dŵr yn ystod wythnosau cyntaf mis Hydref. Dylai hyn gael gwared ar rai o'r cerrig crynion naturiol yn yr afon, gan gynyddu faint o ddŵr sy'n gallu llifo i lawr yr afon cyn iddo orlifo.
4) Mae angen cyflawni gwaith cynnal a chadw ar y polyn camera TCC sy'n bwrw golwg dros y Promenâd a'r draethlin. Mae hyn wedi bod yn broblem barhaus. Mae Owen wedi siarad gyda gwahanol adrannau yn CBSC i drefnu ariannu a phrynu polyn. Mae'n rhaid aros oddeutu 6 wythnos am bolyn ychwanegol ac aros i'w osod. Gosodwyd disgwyliad y bydd y gwaith yn cael ei gyflawni erbyn canol Rhagfyr.
5) Cynllun Lliniaru Llifogydd (Amddiffyn y Morglawdd) – Bydd y prosiect yn canolbwyntio bellach ar godi wal eilaidd o bosibl. Mae CBSC wrthi'n cwblhau gwaith modelu ar gyfer sefyllfaoedd o orlifo i weld pa uchder y byddai'n rhaid cynyddu'r wal eilaidd i wrthsefyll y dŵr llifogydd. Budd hyn ydy nad oes yr un problemau trwyddedu gyda gwaith ar y wal eilaidd ag sydd ar y wal allanol ac felly gobeithio y byddwn yn gallu canfod ffordd o amgylch y blociau sydd wedi'u gosod ar gyfer y gwaith sydd wedi'i drefnu ar y wal allanol. Mae tîm mewnol wrthi'n cyflawni'r gwaith modelu. Unwaith y bydd y modelu wedi'i gwblhau, caiff cynlluniau eu cyflwyno gerbron y Cyngor Tref i'w hadolygu oherwydd mae'n debyg y bydd angen cynyddu uchder y wal eilaidd yn sylweddol. Mae'n debygol y bydd y gwaith ar y wal eilaidd yn rhatach hefyd, gyda'r un canlyniad o bosibl. Mae hyn yn effeithiol er budd y cynllun oherwydd byddai'r gymhareb cost i fudd yn llawer mwy, sy'n golygu ei fod yn debygol o gael mwy o gefnogaeth.

Cwestiynau:

C1: Mae yna lwybr troed sy'n rhedeg ar hyd ac yna dros ben y wal eilaidd bresennol. A fyddai angen cynyddu uchder y llwybr hefyd?

A1: Bydd, byddai'n rhaid cynyddu popeth. Byddai'n rhaid addasu'r wal, yr esgynfeydd, y rheiliau ynghyd â mynediad y ffordd mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag mae'r gwaith hwn yn llawer mwy rheoladwy gan nad oes angen trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru arnyn nhw sy'n rhwystro datblygu'r wal allanol. Efallai y bydd hyd yn oed yn cael ei nodi fel 'datblygiad a ganiateir' ac felly byddai caniatâd cynllunio hefyd yn llai.

C2: Pe bai'r wal yn 4 troedfedd o uchder yna byddai'r ceir wedi'u parcio yn rhwystro'r un olygfa beth bynnag. Byddai'n wahanol pe bai'r wal yn 6 troedfedd neu'n uwch fel y cyfryw.

A2: Mae CBSC yn deall pryderon y preswylwyr am effaith y gwaith ar eu tai. Ond mae angen cyflawni gwaith i ddiogelu eiddo yn y dyfodol rhag peryglon llifogydd. Ni allaf gynnig manylion pendant ar hyn o bryd oherwydd mae'r gwaith modelu yn parhau. Gellir trafod y manylion unwaith y byddwn ni'n ymwybodol ohonyn nhw ar ôl y gwaith modelu. Caiff yr wybodaeth hon ei rhannu gyda'r Cyngor Tref.

C3: Beth ydych chi am ei wneud ynghylch yr eiddo, y cyfleusterau cyhoeddus a'r mannau agored cyhoeddus i'r gorllewin o'r afon?

A3: Mae'r ardal hon yn rhan o'r cynllun modelu.

C4: Allwch chi egluro ac ymhelaethu ynghylch gosod argae yn uwch i fyny'r afon fel y soniwyd amdano.

A4: Nid ydy'r argaeau hyn yn rai 'peirianneg sifil concrit' y gallech chi fod yn meddwl amdanyn nhw. Maen nhw'n fwy tebygol o fod yn beirianneg 'feddalach'. Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar effaith gadarnhaol ar y gwaith ar gyfer busnesau lleol a phreswylwyr felly bydd angen cynnal astudiaethau a chydweithio rhwng CBSC a'r gymuned. Mae cyllid ar gael ar gyfer astudiaethau Rheoli Llifogydd yn Naturiol sy'n ymchwilio tirfeddianwyr lleol sydd â nentydd yn llifo trwy eu tir ac yn edrych ar ffyrdd o arafu'r dŵr. Byddai CBSC yn talu am y gwaith, yn cyflawni'r gwaith ac yn monitro'r gwaith. Y syniad sylfaenol ydy gosod rhwystrau yn yr afon. Gallai'r rhain yn ei dro achosi llifogydd yn y lle anghywir ac felly mae angen asesu hyn os ydyw'n berygl. Fodd bynnag, os oes lleoliadau addas lle gellir arafu'r dŵr i'r afon, mae CBSC yn awyddus i fynd i'r afael â hyn. Yn gyffredinol, nid ydy'r gwaith hwn yn rhan o orchwyl gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ac felly byddai'n rhaid cydweithio'n uniongyrchol gyda thirfeddianwyr lleol rhan fwyaf.

C5: Beth fyddai'r amserlenni ar gyfer y wal eilaidd pe bai'r prosiect hwnnw yn mynd rhagddo?

A5: Mae'r modelu yn cael ei dalu amdano a'i gwblhau yn y flwyddyn ariannol hon. Byddai'r gwaith ffisegol wedi'i dalu amdano a byddai'n rhaid ei gwblhau'r flwyddyn ariannol nesaf (Ebrill 2027 hyd at Fawrth 2028).

C6: Y gymhareb cost i fudd – ai dyma'r costau ar gyfer y cyngor neu a ydyw'n dwyn i ystyriaeth costau'r preswylwyr hefyd?

A6: Nid ydy'r gymhareb cost i fudd wedi'i chyfeirio at y cyngor; mae wedi'i gyfeirio at yr economi. Beth ydy holl gost economaidd y difrod. Mae hyn yn cynnwys tai, ceir, eiddo personol, adeiladau busnesau, ynghyd â seilwaith dinesig (ffyrdd, goleuadau stryd, llwybrau troed, gerddi cyhoeddus a chyfleusterau hamdden), ac unrhyw beth arall y gellir ei ddifrodi yn sgil llifogydd. Pe bai gofyn amdano, gellir cyflwyno canllawiau Llywodraeth Cymru – ond yn ei hanfod mae'n golygu'r gost y mae llifogydd wedi'i achosi i bawb gyda'i gilydd.

C7: Os ydy'r dŵr yn llifo i lawr yr afon, ac mae rhywbeth yn mynd yn sownd o dan y bont ac yn achosi llifogydd o Afon Du hyd at Caradog Place ar yr un pryd y mae'r amddiffynfeydd rhag llifogydd ar yr ail wal yn eu lle, yna ni fydd modd i'r dŵr llifogydd ddianc ac mae'n debygol o lifo i lawr cefn Ffordd Glanmor ac i mewn i dai. Beth sy'n cael ei wneud am y risg hon?

A7: Fel y soniwyd yn flaenorol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru a CBSC yn cyflawni gwaith clirio ar y cwrs dŵr i gael gwared ar rai o'r cerrig crynion naturiol yn yr afon, gan gynyddu faint o ddŵr sy'n gallu llifo i lawr yr afon cyn iddo orlifo. Os byddai rhwystr yn llifo i lawr yr afon ac yn mynd yn sownd o dan y bont yna mae'n rhaid hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru am hyn ar unwaith. Hoffai Owen weld lluniau/fideos sydd gan y preswylwyr o unrhyw lifogydd yn eu hardal er mwyn i'r tîm llifogydd allu eu hasesu. Hefyd, mae croeso i'r preswylwyr gwrdd â mi yn ystod y gwaith a gallwn drefnu ymweliad safle gyda gwybodaeth leol am yr ardal. Rydw i wedi derbyn manylion cyswllt gan y rheiny sydd yma heddiw a gallaf drefnu hynny gyda nhw.

C8: Gan bwy y mae'r goriad ar gyfer y rhwystrau?

A8: Tîm ymateb CBSC sydd gan y goriadau ac maen nhw ar gael 8yb – 5yp yn ystod y dydd. Pe bai digwyddiad, byddai hyn wedi'i ganfod ymlaen llaw gan ddefnyddio data o ragolygon y tywydd a byddai tîm CSBC yn gosod yr amddiffynfeydd cyn unrhyw risg. Nodwyd hefyd yn y gorffennol nad oedd goriad ar gyfer giât y llithrfa ar gael oherwydd bod rhywun ar eu gwyliau. Mae hyn wedi'i adolygu ac mae mesurau wedi'u rhoi ar waith i atal hyn rhag digwydd eto. Mae yna fater cyfreithiol o gyfrifoldeb pe bai CBSC yn rhoi'r goriad i breswylwyr lleol. Mae'n

ddealladwy y byddai'r preswylwyr eisiau'r goriad. Mae'n bosibl bod ffordd y gallai CBSC weithio gyda'r Cyngor Tref ar y mater hwn. Fodd bynnag, tîm ymateb CBSC sy'n gyfrifol yn y pen draw, nhw sydd â'r goriadau. Mae'r tîm hwn yn adrodd i Owen Conry (y swyddog sy'n bresennol yn y cyfarfod).

Doedd yna ddim amser ar gyfer Cwestiynau ac Atebion pellach ac felly fe ofynnwyd i'r preswylwyr a'r Cynghorwyr Tref e-bostio unrhyw gwestiynau pellach roedd ganddyn nhw at Glerc y Dref swyddfa@llanfairfechan.llyw.cymru. Yna gellir anfon y rhain ymlaen at Owen i dderbyn ymateb ganddo.

Penderfynwyd derbyn a nodi

5. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09/09/2026 DLlL 1972 Atodlen 12 para 41(1) ac i adolygu'r rhestr weithredu.

Roedd y rhain wedi'u dosbarthu'n flaenorol ac fe'u nodwyd eu bod wedi'u darllen. Dim materion yn codi o'r cofnodion. Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir. Rhannodd y Dirprwy Glerc y diweddaraf am y Rhestr Weithredu:

1. **Toiledau Ffordd y Pentref –** Yn ystod gwaith ar y toiledau, rhoddwyd bathodyn anabl ar y toiled a oedd gan rywfaint o nodweddion hygyrch. Adolygodd y Dirprwy Glerc y ddeddfwriaeth gan ganfod er bod gan y toiled rai nodweddion hygyrch, roedd nodweddion eraill ar goll (clo hygyrch a larwm brys yn arbennig) felly nid oes modd ei nodi fel toiled hygyrch. Mae'r arwydd wedi'i dynnu. Mae cwmpas i'r Cyngor Tref adolygu'r cyfleusterau hygyrch yn y toiledau yn y dyfodol, ond byddai'n rhaid mynd i'r afael â'r materion staffio a chyfrifoldeb ynghylch y larwm brys yn benodol (h.y. pwy sy'n ymateb gan fod y staff ond yn rhan amser. Ar hyn o bryd mae'r toiledau ar agor pan nad ydy'r staff yn gweithio). At hyn, gan fod gan y Cyngor Tref bellach berchnogaeth / cyfrifoldeb llawn am y toiledau, mae Gweithdrefn Gweithredu Safonol (SOP) yn cael ei chreu. Mae'r SOP wedi amlygu'r angen am ddosbarthwyr sebon newydd sy'n cael eu prynu.
2. **Marchnadoedd Bwyd a Chrefftau –** Daeth nifer o bobl i farchnad Medi ar ddydd Sul, Medi'r 27ain lle bu oddeutu 235 o ymwelwyr a 28 stondin gyda'r Grŵp Perllan Cymunedol yn cynnal yr ystafell de am y tro cyntaf. Mae'r Farchnad nesaf ar ddydd Sul, Hydref y 25ain o dan y thema Calan Gaeaf. Bydd cystadleuaeth gwisg ffansi i bawb a gofynnwyd i'r Cynghorwyr Tref am fynychu a chynnig help llaw.
3. **Prosiect Cydraddoldeb a sesiwn Paned a Sgwrs –** Mae'r sesiynau Paned a Sgwrs wedi parhau. Cynhaliwyd y sesiwn ddiweddaraf heb fod angen Swyddog Cydraddoldeb. Y cynlluniau hirdymor ydy sicrhau bod y grŵp yn cynnal ei hun ac felly mae gallu mynd rhagddi heb unrhyw staff y Cyngor Tref mewn rhai sesiynau yn galonogol. Eto, roedd mynychwyr newydd yn y sesiwn ddiweddaraf hefyd.
4. **Gerddi Fictoria –** Mae'r tîm staff wedi cysylltu â CBSC i ofyn am ddyfynbris ar gyfer cadwyni siglen newydd, seddi siglen newydd a matiau rwber.

Cynigwyd gan y Cyng. Rhys Griffiths Eiliwyd gan y Cyng. Christine Roberts Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

6. Derbyn gwybodaeth ynghylch y gwaith sydd wedi'i gynllunio ar faes parcio'r promenâd

Dosbarthwyd yr wybodaeth yn flaenorol ac fe nodwyd ei bod wedi'i darllen. Bu rhywfaint o broblemau gyda cheir yn parcio ger y lanfa a pholion ffordd coch yn rhwystro mynediad ar gyfer cerbydau brys a defnyddwyr, gan gynnwys pobl sydd â phroblemau symudedd. Mae hyn wedi'u godi'n uniongyrchol gydag arweinwyr CBSC sydd wedi ymateb. Mae yna broblem oherwydd nid ydy'r ardal yn cael ei ystyried fel priffordd ac felly mae tîm traffig CBSC yn gweithio gyda'r harbwrfeistr ar ateb. Dyma'r atebion a awgrymwyd:

- Gallai CBSC lunio llinellau dwbl melyn ar y ffordd fynediad; fodd bynnag, byddai angen Gorchymyn Rheoleiddio Traffig er mwyn iddyn nhw fod yn orfodadwy. Mae CBSC wedi cynnwys y lleoliad hwn ar eu rhestr o adolygiadau Gorchmynion Rheoleiddio Traffig. Yn anffodus, ni allai CBSC gynnig amserlen.
- Gellir ystyried Llinell Amddiffyn Mynediad (llinell wedi'i beintio'n wyn) ac ar gais y Clwb Hwylio i helpu i ddangos bod angen mynediad ar gyfer yr ardal storio cychod. Byddai'n rhaid codi am hyn. Byddai CBSC yn cynghori bod y Clwb hwylio yn cysylltu â'r tîm traffig yn uniongyrchol gyda chais.
- Mannau Gwefru Cerbydau Trydan – Mae wedi cymryd mwy o amser a ragwelwyd yn wreiddiol i arwyddo'r cytundeb. Fodd bynnag, mae CBSC yn agosáu at ei gwblhau. Er gwaethaf hyn, mae CBSC mewn trafodaethau gyda EVCPO i gwblhau'r rhaglen gyflawni lle mae CBSC wedi gofyn bod maes parcio Llanfairfechan yn uchel ar y rhestr flaenoriaeth.

At hyn, nodwyd bod y caniatâd cynllunio ar gyfer yr ardal concrit a glaswellt ym maes parcio'r Promenâd yn ystyried rhoi caniatâd cynllunio amodol yn amodol ar sylwadau boddhaol yr Ecolegydd. Yn unol â'r weithdrefn gymeradwy,

dylid cyfeirio'r cais yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio i'w ystyried ymhellach. Mae'r Cyngor Tref yn gobeithio y caiff y caniatâd cynllunio ei gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

7. Derbyn a chymeradwyo cynlluniau i gynnal gwiriadau DBS ar staff.

Dosbarthwyd gwybodaeth yn flaenorol a nodwyd ei bod wedi'i darllen. Yn sgil y newidiadau diweddar i ofynion DBS a gan fod digwyddiadau wedi'u trefnu gan y Cyngor Tref wedi cynyddu a thyfu mewn maint dros y blynyddoedd diwethaf; bellach mae'r Cyngor Tref mewn sefyllfa lle mae'n rhaid cynnal gwiriadau DBS ar y staff. Bydd staff yn cydweithio'n uniongyrchol gyda phlant, ac oedolion sy'n agored i newid o bosibl, yn y digwyddiadau hyn felly bydd yn rhaid cynnal gwiriad DBS ar bob aelod o staff. Dydy Cynghorwyr ddim yn rhyngweithio'n 'uniongyrchol gyda phlant' yn y digwyddiadau hyn yn yr un ffordd â mae staff. Mae'r Cynghorwyr yn dueddol o 'ofalu am y drysau', neu 'drefnu'r orymdaith' sy'n wahanol i 'helpu creu llusern' neu 'cynnal y gystadleuaeth gwisg ffansi'. Mae Clerc y Dref wedi gwirio gyda darparwr DBS proffesiynol a wnaeth gynghori bod ond angen gwiriad DBS lefel isaf (DBS Sylfaenol) ar y staff. Mae'r rhain yn £21.50 yr un. Mae'r Cyngor Tref angen 4 – cyfanswm o £86.00.

Cynigwyd gan y Cyng. Andrew Hinchliffe BEM Eiliwyd gan y Cyng. Nia Furber Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

8. Derbyn a chymeradwyo fersiwn ddiweddaraf y Llawlyfr Gweithwyr

Dosbarthwyd gwybodaeth yn flaenorol a nodwyd ei bod wedi'i darllen. Yn dilyn y Cytundeb Gweithwyr a gymeradwywyd i'w ddefnyddio yn y cyfarfod diwethaf, mae Llawlyfr Gweithwyr wedi'i baratoi gan Bright HR ac mae ar gael i'w ddwyn i ystyriaeth. Mae'n ddogfen sylweddol felly cafodd y llawlyfr ei rannu â'r Cynghorwyr Tref yn y cyfarfod diwethaf yn barod i'w adolygu. Nodwyd bod yn rhaid i'r llawlyfr gynnwys yr holl ddeddfwriaeth newydd felly does dim llawer o ddewis am ei gynnwys. Fodd bynnag, gellir anfon unrhyw ymholiadau at Bright HR a'u gwirio o'u cymharu â'r gofynion deddfwriaethol gan ddefnyddio eu cynghorydd dynodedig. Ni ofynnwyd am unrhyw newidiadau/golygiadau gan y cynghorwyr, a chynigwyd mabwysiadu'r Llawlyfr Gweithwyr i'w ddefnyddio.

Cynigwyd gan y Cyng. Andrew Hinchliffe BEM Eiliwyd gan y Cyng. Christine Roberts Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

9. Derbyn a chymeradwyo gwybodaeth ynghylch cyfraith Martyn

Dosbarthwyd gwybodaeth yn flaenorol a nodwyd ei bod wedi'i darllen. Mae Cyfraith Martyn yn ddeddfwriaeth newydd lle mae gofyn i fudiadau sy'n gyfrifol am ddigwyddiadau cyhoeddus i ystyried a pharatoi ar gyfer y perygl o derfysgaeth lle gall 200 neu fwy o bobl fod yn bresennol. Gan fod y Cyngor Tref yn trefnu digwyddiadau o'r maint hwn, bydd yn gweithio tuag at gydymffurfio gyda'r gyfraith drwy sicrhau bod staff yn cwblhau'r hyfforddiant ProtectUK am ddim ar-lein sydd wedi'i ddarparu gan yr heddlu. Yn dilyn hyfforddiant, bydd y Cyngor yn datblygu ac yn cynnal asesiadau risg priodol, cynlluniau diogelwch a gweithdrefnau brys, a fyddai'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn gymesur â phob digwyddiad.

Cynigwyd gan y Cyng. Rhys Griffiths Eiliwyd gan y Cyng. Andrew Hinchliffe BEM Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

10. Derbyn a chymeradwyo presenoldeb y Clerc yn y digwyddiad ar y cyd rhwng Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol / Un Llais Cymru.

Dosbarthwyd gwybodaeth yn flaenorol a nodwyd ei bod wedi'i darllen. Mae Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn trefnu digwyddiad ar y cyd o bell ar Dachwedd y 18fed 2026. Mae'r digwyddiad hwn yn un arbennig o bwysig ar gyfer cynghorau Tref a Chymuned o ystyried ei fod yn canolbwyntio ar feysydd pwnc allweddol megis blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer sector y cynghorau lleol, mynd i'r afael â'r diffyg iechyd democrataidd, diweddariad y gyfraith cyflogaeth, materion cod ymddygiad, deallusrwydd artiffisial, a'r argyfwng costau byw. Mae croeso i Gynghorwyr a Chlercod fynd i'r digwyddiad. Y gost ydy £75 y pen. Cynigwyd bod Clerc y Dref yn mynd i'r digwyddiad ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref ar ôl mynd iddo.

Cynigwyd gan y Cyng. Nia Furber Eiliwyd gan y Cyng. Rhys Griffiths Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

11. Derbyn a chymeradwyo cynlluniau i brynu cadair (cadeiriau) swyddfa newydd

Dosbarthwyd gwybodaeth yn flaenorol a nodwyd ei bod wedi'i darllen. Nodwyd nad oes gan unrhyw un o'r 3 cadair swyddfa presennol label gwrth-dân ynghlwm. Mae hyn yn golygu nad ydyn nhw'n cydymffurfio â'r rheolau iechyd a diogelwch. Cafodd 2 o'r cadeiriau eu caffael yn ail law am ddim dros y blynyddoedd diwethaf ac fe brynwyd y llall dros 5 mlynedd yn ôl. Er mwyn i'r Cynghorwyr Tref ddeall y gost, fe wnaeth y Dirprwy Glerc gyflwyno rhestr o gadeiriau ergonomig addas sydd gan un o gyflenwyr y Cyngor Tref. Roedd prisiau'r cadeiriau hyn yn amrywio o £150 i £370. Cynhaliwyd trafodaeth lle bu i'r mwyafrif gytuno y dylid caffael y cadeiriau newydd. Amlygwyd ei fod yn bwysig bod y

cadeiriau yn rai o ansawdd dda, eu bod yn gyfforddus a'u bod yn darparu'r gefnogaeth briodol i gydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Gofynnwyd i'r Cyngor Tref brynu'r un math o gadair i'r holl staff. Cynigwyd rhoi cyllideb o hyd at £300 i'r staff ei wario ar bob cadair, a bod y staff yn adolygu gwahanol gyflenwyr i ddod o hyd i'r gadair fwyaf addas am y pris gorau.

Cynigwyd gan y Cyng. Christine Roberts Eiliwyd gan y Cyng. Chris Jones Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

12. Derbyn a chymeradwyo aelod ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor Cyllid

Dosbarthwyd gwybodaeth yn flaenorol a nodwyd ei bod wedi'i darllen. Ar hyn o bryd, dim ond 3 aelod sydd gan y pwyllgor cyllid. I fod yn fwy effeithiol, gofynnwyd am aelod ychwanegol. Fe wirfoddolodd y Cyng. Chris Jones i ymuno â'r pwyllgor.

Cynigwyd gan y Cyng. Rhys Griffiths Eiliwyd gan y Cyng. Nia Furber Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

13. Derbyn a chymeradwyo cynlluniau ariannu ar gyfer Calan Gaeaf Llanfairfechan

Dosbarthwyd gwybodaeth yn flaenorol a nodwyd ei bod wedi'i darllen. Fel y trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf o dan 'adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau': "Mae'r prosiect yn fyr o £1600 o gyllid ar gyfer y penwythnos cyfan. Mae wedi bod yn anodd dod o hyd i gyllid yn sgil pwysau Wythnos Gelfyddydau Llanfairfechan. Cytunwyd cefnogi'r prosiect oherwydd mae wedi bod yn fanteisiol iawn ar gyfer y dref. Yn y tymor byr, gellir symud y cyllid o gyllideb arall, a bydd y staff yn gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i gyllid pellach i helpu gyda'r digwyddiadau Nadolig."

Nodwyd bod hwn yn gais i symud cyllid o'r gyllideb Nadolig i'r gyllideb Calan Gaeaf. Ar hyn o bryd mae yna wariant arfaethedig o oddeutu £1500 i gau'r ffordd yn ystod y farchnad Nadolig. Gan nad oes ffair bleser yno mwyach, bydd y ffordd yn wag (fel y mae wedi bod am y 2 flynedd ddiwethaf). Awgrymwyd nad ydy hyn bellach yn ddefnydd addas o arian cyhoeddus ac felly gellir symud y gronfa hon i'r un Calan Gaeaf i dalu am y diffyg. Gobeithio y bydd hyn yn rhoi amser i'r staff ddod o hyd i gyllid ar gyfer gweithgareddau ychwanegol yn y ffair Nadolig ar iard yr ysgol. Mae'n golygu felly bod y gost net yn sero i bob pwrpas. Cynigwyd y dylid trosglwyddo'r arian rhwng penawdau'r gyllideb.

Cynigwyd gan y Cyng. Rhys Griffiths Eiliwyd gan y Cyng. Nia Furber Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

14. Derbyn a chymeradwyo cais am gymorth ar gyfer cwrs Cyfeiriannu Llanfairfechan.

Dosbarthwyd gwybodaeth yn flaenorol a nodwyd ei bod wedi'i darllen. Mae aelodau Clwb Cyfeiriannu Eryri, sy'n byw yn Llanfairfechan, wedi dylunio a chreu cwrs cyfeiriannu digidol. Gellir ei lawr lwytho i ffôn neu oriawr glyfar. At hyn, mae'r clwb wedi gofyn am ddefnyddio adnoddau'r Cyngor Tref i greu pecynnau cyfeiriannu ar bapur (ym mhob pecyn mae 2 daflen o bapur wedi'u hargraffu a'u lamineiddio) er mwyn i breswylwyr eu defnyddio. Mae Llyfrgell Llanfairfechan, y Neuadd Gymunedol a Coffi Du i gyd wedi cytuno i storio'r pecynnau i breswylwyr eu llogi a'u dychwelyd. Gofynnwyd am 50 pecyn. At hyn, mae'r cwrs yn un newydd, a hoffai'r clwb drefnu 'agoriad mawreddog' ac roedden nhw'n tybio a fyddai'r Cyngor Tref yn hoffi cymryd rhan drwy gynnal agoriad mawreddog yn un o Farchnadoedd Llanfairfechan gyda'r cynghorwyr a'r Maer yn bresennol. Cynhaliwyd trafodaeth lle nodwyd bod y gost i greu'r pecynnau yn isel iawn a dylid cynnig cymorth i'r prosiect hwn am y 50 pecyn y gofynnwyd amdanyn nhw i ddechrau. Croesawyd y syniad o gynnal agoriad mawreddog ar y cyd â'r farchnad bwyd a chrefftau, ac awgrymwyd mai'r farchnad ym mis Tachwedd fyddai'r gorau ar gyfer y digwyddiad hwn.

Cynigwyd gan y Maer Gyng. Sharne-Marie Bellis Eiliwyd gan y Cyng. Chris Jones Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

15. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer 30/09/2026.

Dosbarthwyd gwybodaeth yn flaenorol a nodwyd ei bod wedi'i darllen.

Cynigwyd gan y Cyng. Andrew Hinchliffe BEM Eiliwyd gan y Cyng. Nia Jones Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

16. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio

Mae'n rhaid i'r Cyngor Tref ystyried Adran 6 Awdurdod Cyhoeddus Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ar gyfer ein holl brosesau yn Llanfairfechan. Ein nod gyda'r ceisiadau cynllunio ydy cynnig ein sylwadau ar faterion materol yn unol â'r ddeddfwriaeth gynllunio a gellir bwrw golwg ar ein sylwadau isod:

Dim materion cynllunio'n codi. **Penderfynwyd derbyn a nodi**

17. Derbyn gohebiaeth:

Roedd yr holl ohebiaeth wedi'i ddosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd eu bod wedi'u darllen.

1. Cais gan Yr Urdd ~ Mae'r Urdd wedi anfon llythyr swyddogol yn gofyn am gymorth a rhoddion i nifer o wahanol bartneriaid a rhanddeiliaid. Mae'r Cyngor Tref eisoes wedi ymrwymo i gynnig £3000 o gyllid eleni (fel y mae'r Cyngor Tref wedi'i wneud am sawl blwyddyn) drwy grant i Ysgol Babanod ac Ysgol Pant y Rhedyn i helpu gyda thalu costau aelodaeth Yr Urdd am bob disgybl yn y ddwy ysgol. Gofynnodd y Cynghorwyr Tref i'r staff am ymateb i'r cais gan ddatgan na fyddai'r Cyngor Tref yn darparu cyllid pellach yn uniongyrchol i'r Urdd gan eu bod eisoes yn darparu cymorth ariannol drwy'r ysgolion lleol.

2. Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ~ Mae'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn grŵp annibynnol sy'n gyfrifol am fwrw golwg ar yr ardaloedd pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd. Mae'n rhaid iddyn nhw wirio ac ysgrifennu adroddiad am yr ardaloedd pleidleisio erbyn Rhagfyr y 1af 2028. Mae'n bwysig eu bod nhw'n derbyn safbwyntiau'r bobl sy'n byw ac yn pleidleisio yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r Cyngor Tref oherwydd mae'r comisiwn hefyd yn bwrw golwg ar ffiniau cynghorau lleol. Mae ymgynghoriad ar waith ar hyn o bryd. Gofynnwyd i bob Cynghorydd Tref gwblhau'r arolwg ymgynghori. Gall y staff ail-rannu'r wybodaeth hon gyda'r holl Gynghorwyr Tref. Nodwyd hefyd bod Un Llais Cymru yn cynnal gweminar i ddiweddaru'r Cynghorau Tref / Cymuned ar yr effeithiau arfaethedig. Yn ogystal â phresenoldeb Clerc y Dref, gofynnodd rhai o'r cynghorwyr am gadw lle ar y gweminar hefyd.

3. Trafnidiaeth Cymru ~ Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn cael eu hannog i ddweud eu dweud ar newidiadau arfaethedig i rwydwaith bysiau'r rhanbarth, wrth i'r cam nesaf o welliannau i wasanaethau bysiau yng Nghymru ddechrau. Cydweithiodd Trafnidiaeth Cymru yn agos gydag awdurdodau lleol i greu rhwydwaith bysiau arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru, fel rhan o raglen ddiwygio bysiau ehangach Llywodraeth Cymru – sydd i'w chwblhau erbyn 2030. Mae ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos o hyd ar y rhwydwaith arfaethedig ar waith tan Hydref y 9fed. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr Tref am fwrw golwg ar yr ymgynghoriad a chynnig adborth.

4. Asesiad Effaith Gymdeithasol Un Llais Cymru ~ Mae Un Llais Cymru yn dwyn ynghyd grŵp bach o gynghorau i gofnodi set gyson o wybodaeth bob mis. Bydd Un Llais Cymru yn ffurfio sylfaen dystiolaeth gryfach sy'n dangos effaith y sector ac yn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol am bolisïau, buddsoddi a chymorth ar gyfer cynghorau cymuned a thref ledled Cymru. Fel rhan o'r gwaith, bydd angen treulio oddeutu 30 munud pob mis i gofnodi gwybodaeth am weithgareddau Cyngor Tref Llanfairfechan a dal i fyny'n anffurfiol yn achlysurol gyda thîm Un Llais Cymru. Cadarnhaodd y staff bod ganddyn nhw'r amser i gasglu'r wybodaeth hon ar gyfer Un Llais Cymru. Gofynnwyd i'r staff greu adroddiad blynyddol o weithgareddau bob blwyddyn a gellir copïo a phastio'r gwaith ar gyfer Un Llais Cymru, heb lawer o olygu, i Adroddiad Blynyddol y Cyngor Tref. Bydd hyn yn ei hanfod yn disodli tasg fawr ar ddiwedd y flwyddyn gyda sawl tasg llai drwy gydol y flwyddyn. Nodwyd hefyd y byddai'r prosiect yn arwain at fwy o gyllid i'r sector Cynghorau Tref/Cymuned ac felly mae'n debygol y bydd y Cyngor Tref yn elwa o ragor o grantiau ar gael yn y dyfodol. Roedd y Cyngor Tref yn bwriadu cytuno y dylai'r staff gydweithio gydag Un Llais Cymru ar y prosiect hwn.

5. Clwb Bowlio Lawnt Coron Llanfairfechan (sgwrs barhaus) ~ Yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Tref fe gyflwynwyd cais am gymorth gan y Clwb Bowlio gyda nodyn i ddisgwyl cais grant cymunedol. Yn dilyn y cais hwnnw, derbyniodd y Clwb Bowlio grantiau wedi'u dyfarnu ag amodau mwy llym nag oedden nhw wedi'i obeithio. Mae hyn wedi arwain at y Clwb Bowlio yn gorfod ail-asesu ei brosiect. Hysbysodd y Clwb Bowlio y Cyngor Tref nad oedd bellach am fwrw ymlaen â'r prosiect ar unwaith a bydd yn hysbysu'r Cyngor Tref pan fydd angen cymorth ychwanegol yn y dyfodol.

6. Drafft o'r Strategaeth Wastraff ~ Yn 2022, bu i GBS Conwy ryddhau cynllun corfforaethol pum mlynedd o hyd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd byd-eang. Nod y cynllun ydy lleihau tarthiadau carbon, addasu i a lliniaru newid mewn hinsawdd, a sicrhau effeithiau hinsawdd cadarnhaol. Fel rhan o'r ymdrech hon, mae CBS Conwy yn canolbwyntio ar leihau gwastraff a chynyddu ail-ddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu gyda Strategaeth Adnoddau a Gwastraff newydd. Mae'r Strategaeth Adnoddau a Gwastraff ddrafft 2026-2031 wedi'i ddatblygu i ymateb i'r heriau hyn a chwilio am gyfleoedd. Mae'r strategaeth yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, a gofynnwyd i'r Cynghorwyr Tref am gynnig adborth ar gyfer yr ymgynghoriad.

Penderfynwyd derbyn a nodi

18. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau

1. Adroddiad y Maer – Aeth i Orymdaith Ddinesig Conwy. Roedd yn ddigwyddiad da iawn a phleserus.

2. Adroddiad o'r Cyfarfod Gefeillio Trefi - Maen nhw'n bwriadu cynnig y pythefnos olaf ym mis Mai. Mae angen cytuno ar hyn gyda'r cymheiriaid o Ffrainc. Mae'r Pwyllgor Gefeillio Trefi hefyd am ymgeisio i'r Cyngor Tref am grant dinesig ar gyfer cymorth parhaus i'r prosiect. Nodwyd cais cyffredinol i ragor o bobl groesawu ein hymwelwyr Ffrengig.

3. Ynni Cymunedol Llanfairfechan - a) Mae Ynni Anafon yn bwriadu darparu cyllid ar gyfer 2 brosiect cyn-ddichonoldeb (gwynt a dŵr). Mae hyn yn ddibynnol ar gyflwyniad / sesiwn Cwestiynau ac Atebion am ein prosiect yn eu cyfarfod bwrdd nesaf. Mae cynrychiolydd o Ynni Llanfairfechan a Greener Edge (contractwr y prosiect) yn bwriadu dod i'r cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau. **b)** Daeth cynrychiolydd o Bartneriaeth Ogwen i'r cyfarfod diwethaf i roi cyflwyniad am y prosiectau ynni cymunedol yn Nyffryn Ogwen. Roedd yn gyflwyniad difyr iawn a llawn gwybodaeth gyda sesiwn Cwestiynau ac Atebion yn ogystal. Y farn gyffredin yn dilyn y cyflwyniad hwn oedd ei bod yn amlwg na all yr adnoddau

sydd ar gael yn Llanfairfechan ddarparu un generadur ynni mawr felly mae angen generaduron llai. Mae hyn yn dilyn gweledigaeth y grŵp presennol o nifer o gynhyrchwyr ynni llai yn ymwneud ag amrywiaeth o ffynonellau ynni (dŵr, gwynt, solar).

Penderfynwyd derbyn a nodi

19. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

1. Sgip Cymunedol – nodwyd bod rhai pobl wedi bod yn gwagio eu ceir gyda phethau i'w rhoi yn y sgip a gadael cyn iddo agor, felly roedd yn rhaid i Swyddog yr Amgylchedd roi'r pethau yn y sgip. Nid ei gyfrifoldeb ef ydy hyn ac mae trigolion sy'n gadael sbwriel heb ei roi yn uniongyrchol yn y sgip yn dechnegol yn cael ei ystyried fel tipio anghyfreithlon. Mae'r rheolau ar gyfer y sgip yn datgan na ddylai'r trigolion adael sbwriel. Bydd y staff yn cyhoeddi hysbysiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn atgoffa preswylwyr i beidio â gadael cyn iddyn nhw roi eu sbwriel yn y sgip eu hunain. Bydd hyfforddiant staff mewnol yn cael ei gynnal hefyd.

2. Tocyn parcio – Mae preswylydd wedi codi mater gyda chynghorydd ynglŷn ag anghydfod am docyn maes parcio gyda CBSC ym Maes Parcio'r Promenâd. Nododd y Cyngor Tref nad oes ganddyn nhw unrhyw rym ynghylch y mater hwn ac nad ydyn nhw'n gallu ymyrryd na chynnig sylw ar y mater hwn.

3. **Tocion gwrychoedd yng Ngerddi Fictoria –** Nodwyd, pan wnaeth CBSC docio'r gwrychoedd yng Ngerddi Fictoria, fod y tocion wedi'u gadael ar y ffordd ac felly fe gawson nhw eu golchi i ffwrdd gan rwystro'r draeniau ond bu iddyn nhw hefyd adael malurion ar y ffordd. Gofynnwyd i staff gysylltu â'r adran Mannau Agored yn CBSC i drafod a datrys y broblem hon yn y dyfodol.

4. Parcio ger y môr – Nododd y Cynghorwyr Tref er bod y maes parcio'n cael ei defnyddio, mae yna nifer yn parcio mewn ardaloedd eraill. Yn benodol, mae cartrefi modur yn tueddu i barcio yn y parth dim cyfyngiadau ger Gerddi Fictoria a nifer o feysydd parcio ger yr orsaf drenau. Nid oedd y Cyngor Tref yn credu y dylid cymryd unrhyw gamau gweithredu ar hyn o bryd, ond mae'n werth nodi er mwyn monitro'r sefyllfa a chymryd camau gweithredu yn y dyfodol os oes angen.

5. Clerc y Dref Newydd – Bydd Clerc y Dref a'r Dirprwy Glerc y Dref yn cyfnewid rolau'n swyddogol ar Hydref y 1af 2026. Estynnwyd llongyfarchiadau i Callum am gymryd yr awenau dros rôl Clerc y Dref.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:13yh